


Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

**Croeso i rifyn arbennig diwedd blwyddyn cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru**

Wrth inni gyrraedd diwedd 2025, rydym yn edrych yn ôl ar flwyddyn o gynnydd gwirioneddol i’n rhanbarth.

O gamau mawr ymlaen gyda Bargen Dwf Canolbarth Cymru, i fentrau sgiliau newydd, arloesedd ynni, datblygiadau technoleg amaeth a thechnoleg bwyd , a gwaddol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU — mae hon wedi bod yn flwyddyn a luniwyd drwy bartneriaeth.

Mae’r rhifyn hwn yn edrych yn ôl ar gerrig milltir allweddol ar draws y flwyddyn ac yn cynnig cipolwg ar yr hyn sydd i ddod yn 2026, wrth inni barhau i adeiladu Canolbarth Cymru decach, wyrddach a mwy llewyrchus.

Cyn inni blymio i’n hadolygiad o’r flwyddyn, rydym hefyd yn falch o rannu rhai diweddariadau newydd: ein Galwad Agored newydd sy’n gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol; ymweliad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol â safleoedd arloesi allweddol yng Nghanolbarth Cymru; a phennod ddiweddaraf ein podlediad sy’n canolbwyntio ar borth Gyrfaoedd 360 — sicrhewch eich bod yn gwrando arno.

Hoffem estyn ein diolch diffuant i’n holl bartneriaid ar draws Ceredigion a Phowys, busnesau a diwydiannau, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyllidwyr, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid ehangach sydd wedi gweithio gyda ni drwy gydol 2025. Eich cydweithrediad, eich mewnwelediad a’ch ymrwymiad chi yw’r hyn sy’n gyrru cynnydd yng Nghanolbarth Cymru.


Wrth inni edrych ymlaen at y cyfleoedd a ddaw yn ystod 2026, gobeithiwn y byddwch yn mwynhau’r rhifyn hwn fydd yn adolygu’r flwyddyn a fu.

Dymunwn i chi oll seibiant hamddenol a thymor llawn hwyl yr ŵyl.

[Tîm Tyfu Canolbarth Cymru]

## 2025: Adolygiad o’r flwyddyn

Cliciwch drwy’r delweddau i archwilio datblygiadau allweddol ar draws gwaith Tyfu Canolbarth Cymru. Unwaith y byddwch yn agor delwedd, fe welwch ddolenni i erthyglau llawn a thudalennau gwe perthnasol.




*1 - https://www.tyfucanolbarth.cymru/newyddion*







2 - https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/20082/Prosiectau-Canolbarth-Cymru-yn-symud-ir-cam-prototeipiau-i-ddarparu-atebion-ynni-glan-yn-y-byd-go-iawn

https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18947/Atebion-Clyfar-ar-gyfer-Ffermio-Cynaliadwy-Datgarboneiddio-Amaethyddiaeth-yng-Nghanolbarth-Cymru]




3 - https://www.tyfucanolbarth.cymru/UKSPFCanolbarthCymru

https://youtube.com/playlist?list=PLebbFOMA3ZSpOnNcASf2U3jiS0s9jckU4&si=1t5OjF14cromIlY9




4 - https://www.tyfucanolbarth.cymru/TechAmaethTechBwyd

https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/19708/Fferm-laeth-arloesol-yn-arwain-y-ffordd-o-ran-ffermio-moesegol-a-rhannu-sgiliau-ar-draws-Canolbarth-Cymru

https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/19484/Ysgogi-Cynnydd-yn-y-Sioe-Frenhinol-Arloesedd-a-chydweithio-yn-gyrru-llwyddiant-Technoleg-Amaeth-a-Thechnoleg-Bwyd

https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18736/ASTUDIAETH-ACHOS-Tirlun.ai---yn-Helpu-Ffermwyr-i-Weithion-Gallach-Bob-Dydd

https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/17964/Amlygu-llwyddiant-arloesi-yng-Nghanolbarth-a-Gogledd-Cymru-Prosiectau-newydd-yn-sbarduno-arloesi-ym-maes-Technoleg-Amaeth-a-Thechnoleg-Bwyd





*5 -*

*[https://psrhcanolbarth.cymru/](https://psrhcanolbarth.cymru/)*

*[https://psrhcanolbarth.cymru/article/20026/Morland-yn-ennill-y-wobr-Partneriaeth-Busnes-Addysg-yng-Ngwobrau-Busnes-Powys-2025](https://psrhcanolbarth.cymru/article/20026/Morland-yn-ennill-y-wobr-Partneriaeth-Busnes-Addysg-yng-Ngwobrau-Busnes-Powys-2025)*

*https://psrhcanolbarth.cymru/article/18851/Datgloi-potensial-Busnesau-ar-draws-Canolbarth-a-Gogledd-Cymru-yn-archwilio-cyflogi-pobl-syn-gadael-y-carchar*




*6 - [https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18502/Cynlluniau-newydd-o-ran-band-eang-ar-gyfer-y-canolbarth---gwiriwch-a-oes-modd-i-chi-gael-cymorth](https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18502/Cynlluniau-newydd-o-ran-band-eang-ar-gyfer-y-canolbarth---gwiriwch-a-oes-modd-i-chi-gael-cymorth)*

## Galwad ar agor yn awr am brosiectau cyfalaf newydd yn y canolbarth

Caiff sefydliadau ar draws y canolbarth eu gwahodd yn awr i gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd er mwyn helpu i lunio rhestr ranbarthol gryfach o brosiectau arfaethedig ar gyfer buddsoddi. Mae'r alwad agored yn fyw erbyn hyn.

Diben y rhestr o brosiectau arfaethedig yw adnabod, cefnogi a pharatoi ystod o brosiectau y mae eu heffaith yn fawr ac sy'n barod ar gyfer buddsoddiad, a all helpu i sbarduno twf economaidd hirdymor ar draws y rhanbarth. Bydd y rhestr yn darparu potensial opsiynau ar gyfer buddsoddi drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru, a bydd hefyd yn golygu bod y canolbarth mewn sefyllfa gref i fanteisio ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol ac ar fuddsoddiad ehangach gan y sector preifat.

Bydd y dull hwn o weithredu, a arweinir gan restr o brosiectau arfaethedig, yn cynorthwyo'r rhanbarth i gyflwyno cynigion uchelgeisiol sy'n rhai y gellir eu cyflawni ac sy'n medru esgor

ar fanteision economaidd parhaol ar gyfer y canolbarth — sy'n cynnwys creu swyddi, gwella cynhyrchiant, cryfhau cadwynau cyflenwi a sbarduno twf sectorau.

Mae'r canllawiau, y ffurflenni a'r wybodaeth atodol ar gael yma: [https://www.tyfucanolbarth.cymru/GMWPipelineRefreshcy](https://www.tyfucanolbarth.cymru/GMWPipelineRefreshcy)

Cyn cyflwyno cynnig, caiff sefydliadau eu hannog yn daer i gysylltu â Swyddfa Rheoli Portffolio Tyfu Canolbarth Cymru er mwyn cael trafodaeth anffurfiol i ddeall terfynau, gofynion ac amserlenni'r cyllid.

Ebostiwch: tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Darllenwch yr erthygl llawn ar ein wefan.

Embed://<iframe width="100%" height="300" scrolling="no" frameborder="no" allow="autoplay" src="https://w.soundcloud.com/player/?url=https%3A//api.soundcloud.com/tracks/soundcloud%253Atracks%253A2223477335&color=%23ff5500&auto_play=false&hide_related=false&show_comments=true&show_user=true&show_reposts=false&show_teaser=true&visual=true"></iframe><div style="font-size: 10px; color: #cccccc;line-break: anywhere;word-break: normal;overflow: hidden;white-space: nowrap;text-overflow: ellipsis; font-family: Interstate,Lucida Grande,Lucida Sans Unicode,Lucida Sans,Garuda,Verdana,Tahoma,sans-serif;font-weight: 100;"><a href="https://soundcloud.com/user-473506905" title="Business News Wales" target="_blank" style="color: #cccccc; text-decoration: none;">Business News Wales</a> · <a href="https://soundcloud.com/user-473506905/brian_mixdown-1" title="Councillor Bryan Davies, Leader of Ceredigion County Council" target="_blank" style="color: #cccccc; text-decoration: none;">Councillor Bryan Davies, Leader of Ceredigion County Council</a></div>

Gwrandewch ar y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion yn dweud mwy wrth Business News Wales am y Galwad Agored.

(Gwrandewch ar y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys, yng nghylchlythyr Saesneg Tyfu Canolbarth Cymru).

## Canolbarth Cymru yn arwain Cynnig Cronfa Partneriaeth Arloesi Leol Bwyd-Amaeth ac Amaeth-Dechnoleg Cymru Gyfan

Mae cynlluniau'n mynd rhagddo ar gyfer Cronfa Bartneriaeth Arloesi Leol (LIPF) arfaethedig gwerth £20 miliwn, sy'n canolbwyntio ar gyflymu twf sy'n cael ei arwain gan arloesedd ar draws sectorau bwyd-amaeth ac amaeth-dechnoleg Cymru. Nod y rhaglen yw galluogi lleoedd i adeiladu clystyrau cystadleuol yn rhyngwladol sy'n denu mewnfuddsoddiad a chynyddu cyfradd masnacheiddio.

Yn ddiweddar, daeth y Bartneriaeth Arloesi Bwyd-Amaeth ac Amaeth-Dechnolegau ag uwch randdeiliaid o bob rhan o'r llywodraeth, y byd academaidd a diwydiant at ei gilydd, gan weithio trwy bartneriaeth helix driphlyg. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru, Ambition Gogledd Cymru, Innovate UK, Prifysgol Aberystwyth, Arloesi Aber, M-SParc, Canolfan Bwyd Cymru, Strategaeth Arloesi a BIC Innovation.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar sut y gall buddsoddiad wedi'i dargedu, yn seiliedig ar le gryfhau cynhyrchiant busnes, annog buddsoddiad yn y sector preifat, a chefnogi masnacheiddio a mabwysiadu arloesedd bwyd-amaeth ac amaeth-dechnoleg agos at y farchnad, tra'n sicrhau aliniad â pholisi bwyd, arloesi ac economaidd cenedlaethol a rhanbarthol.

Nod y rhaglen yw adeiladu ar y clystyrau bwyd-amaeth ac amaeth-dechnoleg presennol Cymru gyfan a bydd yn cael ei harwain gan Tyfu Canolbarth Cymru, gan ddod ag asedau a gwelyau prawf a rennir ynghyd ledled Cymru i wella llwybrau i ehangu a chyflymu masnacheiddio.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid y diwydiant ar y gweill ar hyn o bryd; cynhelir dau weithdy ym mis Ionawr 2026 ar y dyddiadau canlynol:

**· 15 Ionawr – ArloesiAber, Aberystwyth**

**· 16 Ionawr – M-SParc, Ynys Môn**

Anogir busnesau sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â'r rhaglen i gofrestru drwy gysylltu â anja.evans@bic-innovation.com

## Ymweliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol â safleoedd arloesi allweddol yng Nghanolbarth Cymru

mwelodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Derek Walker, â Chanolbarth Cymru ar 25 Tachwedd i archwilio cyfleoedd hirdymor ar gyfer economi ranbarthol ffyniannus a chynaliadwy.

Cwrddod Derek â arweinwyr rhanbarthol, busnesau a phartneriaid arloesi i weld sut mae cyfleoedd i adeiladu dyfodol tecach, gwyrddach a mwy llewyrchus i gymunedau yn cael eu gwireddu ar draws Ceredigion a Phowys.

Wedi'i drefnu gan Tyfu Canolbarth Cymru, amlygodd yr ymweliad arweiniad y rhanbarth ym maes arloesi bwyd, cynaliadwyedd, datblygu sgiliau a thwf glân, gan ganolbwyntio ar sut mae cydweithio'n helpu i gyflawni llawer o'r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Canolfan Bwyd Cymru, Horeb, oedd cam cyntaf yr ymweliad lle clywodd y Comisiynydd sut mae'r Ganolfan yn cefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod i arloesi, graddio'n gynaliadwy, mabwysiadu technolegau newydd a chreu swyddi o ansawdd uchel sy'n wedi'u gwreiddio mewn cadwyni cyflenwi lleol. Trafododd y grŵp gynlluniau ar gyfer Canolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd ac ymwelodd â chyfleusterau sy'n cefnogi sgiliau, entrepreneuriaeth a thwf busnes.

Yn dilyn hynny, ymwelodd y Comisiynydd ag AberInnovation, yr unig Gampws Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sydd yng Nghymru. Dangosodd y daith dwf y clwstwr biolegol, agri-dechnoleg ac economi gylchol sy'n tyfu yn y rhanbarth, a gefnogir gan arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf ac ecosystem gynyddol o ddechreuwyr a busnesau sy'n datblygu atebion ymarferol.

Darllenwch y erthygl llawn ar [ein wefan.]




*7 - Aberinnovation (Ch-Dd) Y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys; Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; Rhian Hayward, Prif Swyddog Gweithredol ArloesiAber Rhian Hayward, CEO of AberInnovation; Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.*

## Tyfu Canolbarth Cymru: Trafodaethau Digidol


🎙️ **Pennod 3 – Sgiliau**: Podlediad sy'n canolbwyntio ar sut mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh) yn cryfhau'r llwybr sgiliau yn y rhanbarth, gan drafod blaenoriaethau cyfredol a phorth Gyrfaeoedd 360. Ymhlith y gwesteion roedd Emma Thomas, Cadeirydd y ;PSRh Ceri Stephens o Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru; Doug Hughes o Hughes Architects (Cadeirydd Clwstwr Adeiladu'r RSP); ac Andries Pretorius, sylfaenydd Gyrfaeoedd mewn 360, a rannodd fewnwelediadau ar gysylltu addysg, cyflogwyr a thalent y dyfodol ledled Canolbarth Cymru.

Gwrandewch yma: Growing Mid Wales: Digital Discussions - Business News Wales

Yn ogystal â'r podlediadau, mae pob un o'r gwesteion sydd wedi cyfrannu at ein cyfres bodlediadau hefyd yn cyfrannu colofn wadd i adran Business News Wales. Ewch i archwilio adran Canolbarth Cymru nawr.




*8 - https://careersin360.com/*




*9 - https://careersin360.com/*

## Dathlu doniau eithriadol yng Ngheredigion – cyhoeddi enillwyr Gwobrau Caru Ceredigion 2025

Cynhaliwyd Gwobrau Caru Ceredigion 2025 ar11 Rhagfyr, ar gampws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a dathlwyd cyfraniadau a chyflawniadau eithriadol busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion ledled y sir.

Wedi'i drefnu o dan faner Caru Ceredigion, derbyniwyd dros 110 o geisiadau ar gyfer y gwobrau a oedd yn cynnwys rhai categorïau newydd eleni, gyda 40 yn ymddangos ar y rhestrau byr ar draws 12 categori. Roedd y digwyddiad yn noson o ddathlu a chydnabod, a welodd Cynghorwyr Sir, swyddogion, cynrychiolwyr o bob cwr o'r byd busnes a grwpiau cymunedol yn anrhydeddu'r ymdrechion a'r cyflawniadau eithriadol o fewn y sir.

Un o uchafbwyntiau'r seremoni oedd cyflwyno Gwobr Caru Ceredigion, a aeth i Aber Cycle Fest, sef yr enillydd cyffredinol ar draws y gwahanol gategorïau.

Am restr lawn yr enillwyr a’r rhai a ddaeth yn ail, ewch i d[udalen newyddion Cyngor Sir Ceredigion.]




## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein

hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales